



THEPOETRYSOCIETY



Dathlu Popeth Amdanom Ni *About Us*: yn dod i Gaernarfon rhwng 30 Mawrth a 5 Ebrill

- Digwyddiad anhygoel am ddim yn yr awyr agored yng Nghaernarfon yn archwilio 13.8 biliwn o flynyddoedd o hanes
- Mae *About Us* yn rhan o *UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU*, dathliad unwaith mewn oes o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU yn 2022
- Sioeau byw wedi eu creu gan yr artistiaid fideo arobryn 59 Productions, a oedd yn gyfrifol am Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd Llundain 2012, Stemettes a The Poetry Society sy'n cynnwys cerddi ac animeiddiadau Scratch gan bobl ifanc o bob cwr o'r DU
- Bydd *Côr Dre*, *Côr Eifionydd* a *Chôr Kana* yn perfformio sgôr wreiddiol newydd sbon gan Nitin Sawhney CBE
- Bydd *About Us* ar Y Maes yng Nghaernarfon rhwng 30 Mawrth a 5 Ebrill

Ddydd Mercher 2 Chwefror 2022 bydd *About Us*, digwyddiad anhygoel yn yr awyr agored, na welwyd erioed o'r blaen, sy'n cyfuno perfformiadau byw a gosodiadau amlgyfrwng i ddathlu holl hanes y bydysawd o'r Glec Fawr hyd heddiw yn cyrraedd **Caernarfon ar 30 Mawrth 2022** am wythnos yn unig yn rhan o'r daith pum lleoliad ledled y DU.

Yn cynnwys cerddi ac animeiddiadau Scratch gan bobl ifanc o ysgolion yng Nghaernarfon, ledled Cymru a gweddill y DU, bydd y sioeau taflunio 25 munud yn trochi cynulleidfaoedd mewn taith gyffrous drwy 13.8 biliwn o flynyddoedd o hanes ers gwawr y bydysawd mewn dathliad o'r ffyrdd diddiwedd yr ydym yn cysylltu â'r cosmos, y byd naturiol, a'n gilydd.

About Us yw'r digwyddiad agoriadol ar gyfer *UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU*, dathliad unwaith mewn oes o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU eleni; cyfle digynsail i bobl ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau mawr ysbrydoledig a phrosiectau creadigol am ddim. Mae *UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU* yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU a chaiff ei gomisiynu a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Cymru Greadigol, Cyngor Dinas Belfast ac EventScotland.

Gyda'r nos bydd *About Us* yn trawsnewid Y Maes yn gynfas enfawr gan gyfuno animeiddio ysbrydoledig wedi'i fapio a'i daflunio'n fyw gyda barddoniaeth, cerddoriaeth, a chanu corawl byw hyfryd i greu digwyddiad unigryw. Wedi'u lleoli ar draws y Sgwâr, bydd sawl plinth yn cynnwys goleuadau theatrig deinamig a sgriniau LED yn cynnig gwrthbwynt y naratif ar raddfa ddynol yn erbyn delweddau graddfa gosmig enfawr y tafluniad fideo. Bydd y sioeau gyda'r nos yn cynnwys ceisiadau buddugol o gystadleuaeth barddoniaeth ac animeiddio Scratch genedlaethol *About Us*, ar y thema 'cysylltedd a'r bydysawd', a ddewiswyd gan lu o feirniaid nodedig: y Bardd Llawryfog, Simon Armitage; y mathemategydd, awdur a'r ddarlledwraig, Rachel Riley; Scots Makar, Kathleen Jamie; cyd-sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Stemettes, Dr Anne-Marie Imafidon MBE; awdur, bardd, perfformiwr, addysgwr, enillydd Slam Barddoniaeth y DU a Rhyngwladol, Keith Jarrett; Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn; cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr Creadigol body>data>space ac Ymddiriedolwr Stemettes Futures, Ghislaine Boddington; a'r bardd arobryn o Ogledd Iwerddon, Stephen Sexton.

Mae'r cyfansoddwr a'r cerddor o fri **Nitin Sawhney CBE** wedi cyfansoddi'r sgôr wreiddiol a fydd yn cael ei pherfformio fel rhan o'r sioeau byw gan **Côr Dre**, **Côr Eifionydd** a **Chôr Kana**. Mae perfformiadau corau *About Us* yn cael eu cyfarwyddo'n gerddorol gan y cyfansoddwr, Osnat Schmool, a fydd yn arwain ochr yn ochr ag

arweinwyr corau lleol. Mae Sawhney wedi cyfansoddi sgoriau i fwy na 60 o ffilmiau ac mae ei gydweithwyr blaenorol wedi cynnwys Syr Paul McCartney a Cherddorfa Symffoni Llundain.

Yn y dydd bydd gosodiadau amlgyfrwng dros dro ar agor rhwng 10am a 5pm i arddangos creadigrwydd di-bendraw plant a phobl ifanc lleol gyda cherddi ac animeiddiadau Scratch a grëwyd mewn gweithdai ysgolion yng Nghaernarfon a'r cyffiniau.

Dywedodd Lysander Ashton, Cyfarwyddwr 59 Productions a Chyfarwyddwr Prosiect *About Us*: *"Mae About Us wedi bod yn broses gydweithredol unigryw sy'n dod â beirdd, gwyddonwyr, cerddorion, artistiaid gweledol a phlant ysgol o bob rhan o Loegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru at ei gilydd. Mae pob un o'r lleisiau unigryw hyn wedi cyfrannu at greu darlun cyfansawdd hynod gyfoethog o'r bydysawd rhyfeddol yr ydym i gyd yn ei rannu. Mae About Us yn wahoddiad i brofi byd lle'r ydych chi'n cael eich gwneud o sêr, rydych chi'n cael eich creu o driliwn o gelloedd cymhleth sy'n gweithio mewn cytgod, rydych chi'n gysylltiedig â deinosoriaid a gallwch wneud cysylltiad â biliwn o bobl drwy bwysu un botwm; mae'n ddatliad o rai o'r pethau anhygoel sy'n ein gwneud ni yn ni, ac ni allaf aros i gynulleidfa oedd ddod i'w weld."*

Dywedodd Martin Green CBE, Prif Swyddog Creadigol UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU: *"Mae'n hynod gyffrous agor UNBOXED, dathliad mwyaf uchelgeisiol y DU o greadigrwydd hyd yma gydag About Us ac, yn llythrennol, bydd yn Glec Fawr. Bydd y perfformiad anhygoel rhad ac am ddim hwn yn dangos i ni'r hyn y gellir ei gyflawni pan fyddwn yn harneisio pŵer creadigol gwyddonwyr, technegwyr, cynhyrchwyr, cerddorion, beirdd a mathemategwyr i gynhyrchu a chyflwyno profiad gwirioneddol ryfeddol ac ysbrydoledig, na fydd cynulleidfa oedd, a'r corau a'r bobl ifanc sydd wedi cyfrannu, byth yn ei anghofio."*

Dywedodd Dr Anne-Marie Imafidon MBE, cyd-sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Stemettes: *"Mae STEAM yn ein galluogi i edrych ar gysyniadau gwyddonol drwy lens newydd sbon. Mae mwy o le i syniadaeth a'r rhyddid i greu rhywbeth newydd drwy ddilyn llwybr rhyngadrannol i ddatrys problem. Gan ddatblygu dulliau profedig, mae STEAM yn cefnogi'r broses greadigol fel y gall pobl helpu i ddatrys problemau byd go iawn. Bydd y dull aml-ddimensiwn hwn o ymdrin â chreadigrwydd yn cael ei ddangos drwy ddefnyddio prosiectau animeiddio Scratch yn sioeau a gosodiadau About Us a fydd yn rhoi gwledd i'r synhwyrâu."*

Crëwyd ***About Us*** gan y cwmni arobryn **59 Productions**, un o'r grymoedd creadigol a thechnolegol y tu ôl i Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd Llundain 2012 ; **Stemettes**, y fenter gymdeithasol arobryn sy'n gweithio i ymgysylltu, hysbysu a chysylltu'r genhedlaeth nesaf o fenywod a phobl anneuaid â Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, y Celfyddydau a Mathemateg (STEAM) drwy arddangos amrywiaeth o bobl sy'n gweithio yn STEAM; ac un o sefydliadau celfyddydol mwyaf deiniog y DU, **The Poetry Society**.

Mae ***About Us*** ar daith pum lleoliad o fis Mawrth i fis Mai 2022, gan deithio i **Paisley** o 1 i 6 Mawrth (rhagolwg cyhoeddus; 28 Chwefror), **Derry–Londonderry** rhwng 15 a 21 Mawrth, **Caernarfon** rhwng 30 Mawrth a 5 Ebrill, **Luton** rhwng 14 ac 20 Ebrill a **Hull** rhwng 30 Ebrill a 6 Mai.

Mae holl ddigwyddiadau ***About Us*** yn yr awyr agored, yn rhad ac am ddim heb fod angen tocyn, ac yn addas ar gyfer cynulleidfa o bob oed. **Mwy o wybodaeth:** aboutus.earth

About Us yw'r prosiect cyntaf a gyflwynir o fewn rhaglen UNBOXED, a'r digwyddiad cyntaf i gael ei chynnal yng Nghymru. **Mae'r digwyddiadau yng Nghymru yn cynnwys:** [About Us](#) (Caernarfon, 30 Mawrth i 6 Ebrill), [Dreamachine](#) (Caerdydd, manylion i'w cyhoeddi), [Green Space Dark Skies](#) (Iled Cymru, Mai i Medi 2022), [StoryTrails](#) (Casnewydd ac Abertawe, Awst) ac, wedi'i gomisiynu gan Cymru Greadigol, [GALWAD](#): Stori o'n dyfodol (Blaenau Ffestiniog, Abertawe a Merthyr Tudful, 26 Medi-2 Hydref 2022).

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

Gellir lawrlwytho **delweddau i'r wasg** yma:

https://www.dropbox.com/sh/8ojgbxi5xsiga9v/AACzIAHg2xBLf4ZCg90MG_vPa?dl=0

Cysylltiadau i'r wasg:

Ar gyfer UNBOXED yng Nghymru, cysylltwch â Rhian Richards: Rhian.Richards@wearecowshed.co.uk

Ar gyfer ymholiadau'r wasg ryngwladol/genedlaethol ynglŷn ag *About Us*, cysylltwch â Dee McCourt: dee@borkowski.co.uk

Ar gyfer ymholiadau'r wasg ranbarthol ynglŷn ag *About Us*, cysylltwch â Marcus Stanton:

marcus@marcusstanton.co.uk

Ar gyfer UNBOXED, cysylltwch â Jeanette Ward: Jeanette.Ward@unboxed2022.uk

Rhestriadau:

***About Us* yng Nghaernarfon**

30 Mawrth i 5 Ebrill 2022

Lleoliad: Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55

Nifer o sioeau byw bob nos – amseroedd y sioeau rhwng 8:45pm a 10:30pm

Hyd sioe fyw: 25 munud

Mae gosodiadau *About Us* yn ystod y dydd ar agor rhwng 10am a 5pm

Mae'r holl ddigwyddiadau am ddim ac nid oes tocynnau

I gael gwybod mwy, ewch i: aboutus.earth

Mae **UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU** yn ddathliad o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU yn 2022, a gynlluniwyd i gyrraedd miliynau a dod â phobl at ei gilydd. Mae'n cynnwys digwyddiadau, gosodiadau a phrofiadau digidol sy'n hygyrch yn fyd-eang yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithio creadigol. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau disgleiriaf mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, mae UNBOXED yn cynnwys prosiectau creadigol aml-safle a digidol mawr sy'n rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau rhwng 1 Mawrth a 2 Hydref 2022 – o'r Hebrides Allanol i Dover ac o Omagh i Abertawe, ac ar draws y cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac fe'i comisiynir a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.

unboxed2022.uk

1 Mawrth i 2 Hydref 2022

Funded by



Delivered in
partnership with



Mae **59 Productions** yn stiwdio ddylunio a chwmmi cynhyrchu sy'n arbenigo mewn dylunio sy'n seiliedig ar stori. O fapio amcanestyniadau pensaernïol i arddangosfeydd; o brofiadau Realiti Rhithwir i ddigwyddiadau; o ddylunio theatrig i ymgynghoriaeth dechnegol, mae cwmni 59 o awduron, cyfarwyddwyr, penseiri, animeiddwyr, artistiaid gweledol a thechnolegwyr yn cynhyrchu gwaith artistig sy'n ceisio rhyfeddu cynulleidfaoedd o bob math. Gan adeiladu ar fwy na degawd o brofiad yn gwneud gwaith theatrig ar gyfer rhai o leoliadau mwyaf y byd – gan gynnwys gwaith sydd wedi ennill gwobrau Olivier a Tony ar gyfer y National Theatre, West End a Broadway, ac i lawer o brif sefydliadau diwylliannol y byd – mae'r cwmni wedi dod yn enwog yn fwy diweddar am greu gwaith celf cyhoeddus ysblennydd, mapio rhai o adeiladau mwyaf eiconig y byd, gan gynnwys Tŷ Opera Sydney, Amgueddfa Guggenheim Bilbao, Heneb Washington yn DC a Phencadlys y Cenedloedd Unedig yn Efrog Newydd. Mae 59 Productions hefyd yn adnabyddus am brosiectau fel arddangosfa David Bowie yn Amgueddfa y V&A, a gynlluniwyd ganddynt, ac am ei gwaith aml-wobr ei hun mewn Realiti Rhithwir.

59productions.co.uk | Twitter: @59productions | Instagram: @59_productions

Creodd Dr Anne-Marie Imafidon MBE y **Stemettes** yn 2013 i sicrhau bod merched, menywod ifanc a phobl ifanc anneauidd yn gwybod bod meysydd technegol ar eu cyfer. Cenhadaeth y Stemettes yw ysbrydoli, annog a chefnogi pobl ifanc i feysydd STEM gyda'u hethos 'Free, Fun, Food'. Hyd 2021, mae Stemettes wedi newid bywydau dros 55,000 o bobl ifanc ledled y DU, Iwerddon a rhannau o Ewrop. Mae Stemettes yn cynnal mwy na 50 o ymyriadau bob blwyddyn - cymysgedd o raglenni carfan ryngadrannol, digwyddiadau effeithiol a llwyfannau cynnwys ysbrydoledig. Mae'r ymyriadau hyn yn gwella canfyddiadau o STEM, yn codi ymwybyddiaeth o opsiynau o fewn STEM, yn tyfu'r rhwydwaith sydd gan y bobl ifanc hyn ar draws STEM ac yn gwella eu hyder hunan a STEM. Y camau nesaf ar gyfer Stemettes yw datblygu'r cyrhaeddiad a'r rhaglenni sydd ganddynt ledled y wlad i ardaloedd lle ceir llai o STEM, gan ymestyn y ddarpariaeth Stemettes i Rien, Gwarcheidwaid ac Athrawon (y mae'r Stemettes yn eu galw yn Ddylanwadwyr) a throsglwyddo alumnae i feysydd STEM. Gall unrhyw un sydd eisiau helpu gyfrannu at Stemettes Futures ledaenu'r gair am Stemettes mor bell ac eang â phosibl, a gwirfoddoli ar raglen Stemettes. I unrhyw un sydd eisoes yn y diwydiant, y ffordd orau o gefnogi fyddai sicrhau nad oes angen i Stemettes fodoli. Defnyddiwch eich cylch dylanwad i fod yn gefnogwr da, sicrhau bod arfer teg yn cael ei ddefnyddio yn eich gweithle ar draws arferion cyflogi, dyrchafu a dyrannu cyfrifoldeb swyddi.

stemettes.org | Twitter, Instagram, Facebook a LinkedIn /Stemettes

The Poetry Society yw prif sefydliad barddoniaeth y DU. Gyda rhaglenni addysg a chomisiynu arloesol, a chalendr llawn o berfformiadau, cystadlaethau a phrosiectau digidol, mae The Poetry Society yn hyrwyddo barddoniaeth ar gyfer pob oedran. Sefydlwyd The Poetry Society yn 1909 i hyrwyddo 'cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad mwy cyffredinol o farddoniaeth'. Ers hynny, mae wedi tyfu'n sefydliad celfyddydol deinamig, sy'n cynrychioli beirdd a barddoniaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae ganddi aelodaeth fyd-eang ffyniannus, yn cyhoeddi cylchgrawn barddoniaeth mwyaf blaenllaw'r DU, *The Poetry Review*, ac mae'n cynnal cynlluniau datblygu talent ddylanwadol fel National Poetry Competition a Foyle Young Poets of the Year Award. Bob blwyddyn mae pobl o bob oed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Poetry Society o bob un ardal cod post yn y DU a mwy na 100 o wledydd ledled y byd. Yn arbenigwyr mewn addysg farddoniaeth i bobl ifanc, mae The Poetry Society yn trefnu ymweliadau barddol mewn ystafelloedd dosbarth drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â chreu adnoddau addysgu dibynadwy, hwyluso gwaith mewn lleoliadau dysgu anffurfiol a rhedeg y gymuned ar-lein fywiog Young Poets Network. Mae The Poetry Society yn Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr ac yn elusen gofrestrdig.

poetrysociety.org.uk | youngpoetsnetwork.org.uk | Facebook a Twitter @PoetrySociety | Instagram @thepoetrysociety